

Bydd cerflunwaith newydd yn Nhwyni Crymlyn yn dathlu harddwch a bioamrywiaeth yr ardal

Yr wythnos hon, gosodir cerflunwaith newydd yn Nhwyni Crymlyn i ddathlu bywyd gwyllt ac amrywiaeth y safle arfordirol gwarchoddedig a'i bwysigrwydd i'r gymuned leol.

Cynlluniwyd y cerflun gan arlunydd, gofaint o Gymru, i ymgorffori elfennau allweddol y tirlun, wrth adlewyrchu'r ymrwymiad i wella'r cynefin i bobl a bywyd gwyllt, ymhell i'r dyfodol.

Cynhelir seremoni torri'r rhuban ar ddydd Sul 16 Gorffennaf i ymwelwyr â'r Twyni a'r gymuned ehangach. [Mynychir y digwyddiad](#) gan westeion proffil-uchel o Brifysgol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, Plantlife a chyryff eraill sy'n bartneriaid, a chynhelir llawer o weithgareddau byd natur i'r teulu er mwyn annog ymwelwyr i archwilio'r twyni.

Rhestrir twyni tywod arfordirol fel y math o gynefin sydd fwyaf mewn perygl o golli bioamrywiaeth yn Ewrop [1], ac mae Twyni Crymlyn yn lloches hanfodol mewn ardal o gryn ddatblygiad. Mae'r twyni a'r gors heli yma'n gartref i fywyd gwyllt prin ac arbenigol, yn cynnwys chwilod teigr y twyni, tegeirianau, a'r gardwenynen frown-resog. Mae'r ardal hefyd yn darparu gofod I gysylltu gyda byd natur i fyfyrwyr Campws Prifysgol Bae Abertawe a phreswylwyr lleol.

Mae Prifysgol Abertawe, wrth gydweithio gyda Thwyni ar Symud a Buglife, wedi bod yn rhoi gwaith adfer cynefin ar waith i wella cyflwr Twyni Crymlyn. Un o'r prif fygythiadau i dwyni tywod yw llystyfiant di-reolaeth a thyfiant rhywogaethau ymledol sy'n mygu'r twyni ac yn cael effaith andwyol ar y planhigion a'r infertebratau arbenigol sy'n byw yno, llawer wedi addasu i fyw mewn tywod moel neu symudol. I helpu i adfer y cynefin, cliriwyd y llystyfiant mwyaf trwchus yn fecanyddol gyda gwirfoddolwyr yn helpu i dorri unrhyw ail-dyfiant. Gobeithir y bydd y gwaith yma'n helpu i alluogi'r Twyni i ffynnu eto a sicrhau dyfodol y safle fel man pwysig I bobl a bywyd gwyllt.

Meddai Ben Sampson, Swyddog Cynladwyedd Prifysgol Abertawe a Warden Twyni Crymlyn:

“Mae Twyni Crymlyn yn un o'r ychydig o gilfachau o ardaloedd gwyllt o amgylch arfordir Bae Abertawe sydd ar ôl. Mae'r twyni a chorsydd yn cynnal ystod rhyfeddol o blanhigion ac anifeiliaid. Mae cael man mor bwysig I fywyd gwyllt mor agos i'r ddinas ac yn rhad ac am ddim i bawb ei grwydro yn sicrhau ei fod yn lle gwych i bobl brofi byd natur ar riniog eu drws, ac yn hynod o arbennig oherwydd hyn.”

Wedi ei greu gan y gofaint Cymreig James Eifion Thomas, cynlluniwyd y cerflunwaith fel mynedfa i bobl sy'n cyrraedd y safle. Bydd ei fwâu addurniadol yn croesawu pobl wrth iddyn nhw gychwyn ar eu taith ac yn darparu cipolwg ar y tirlun i ddod. Ymhen amser, gosodir ail gerflun wrth fynedfa arall y Twyni – wedi eu cynllunio fel pâr, bydd yr ail gerflun hwn yn adlewyrchu rhai o nodweddion mwyaf y tirlun a dylanwadau Twyni Baglan gerllaw.

Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023



Meddai Hannah Lee, Swyddog Ymgysylltu Cymru Twyni ar Symud:

“Bydd y cerflun hwn yn wirioneddol helpu i greu synnwyr o gyrraedd i bobl sy'n ymweld â Chrymlyn. Rydym wedi ei gynllunio i gynnwys elfennau o'r safle y gall preswylwyr lleol gysylltu gyda nhw fwyaf ac fe welwch bod gloÿnnod byw, adar, gweision neidr a mwy wedi eu plethu iddo. Ein dymuniad yw creu'r nawr, yn ogystal â gorffennol a dyfodol y safle.”

Mae preswylwyr lleol, myfyrwyr a'r gymuned leol yn cael eu hannog i fynychu'r digwyddiad dadorchuddio lle bydd lluniaeth am ddim, ynghyd â Bioblitz, teithiau tywys byd natur, a chwilfa carthysyddion.

Gellir mynychu'r digwyddiad yn rhad ac am ddim; mae'n cael ei gyd-gynnal gan Twyni ar Symud mewn partneriaeth â Plantlife, Cyfoeth Naturiol Cymru, Prifysgol Abertawe, Neath Port Talbot Partneriaeth Natur Lleol, Buglife, Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid, Tywod LIFE a Chanolfan Gofnodi Biolegol De Ddwyrain Cymru (SEWBRc). Project yw Twyni ar Symud sy'n gweithio i adfer cynefinoedd twyni tywod arfordirol i bobl, cymunedau a bywyd gwylt ledled Cymru a Lloegr, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y project yw Natural England, Plantlife, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithasau Byd Natur. Plantlife a Chyfoeth Naturiol Cymru sy'n arwain ar y gwaith ymgysylltu sy'n digwydd yng Nghymru. Mae prosiect Twyni Ar Symud, Prifysgol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru a Plantlife yn ddiolchgar am y gefnogaeth i'r gwaith hwn gan Tirfeddianwyr Twyni Crymlyn, St Modwen.

- diwedd -

Lluniau (Defnydd-senql)

Mae ystod o luniau a fideo ar gael i'w lawrlwytho o'r ffolder Google Drive hwn, yn cynnwys: https://drive.google.com/drive/folders/1AZtd_kq6_WXltBdtMdzUJdsJ28nVOc9Y?usp=drive_link

Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023



Lleoliad y bwâu yn Nhwyni Crymlyn CYDNABYDDIAETH Prifysgol Abertawe/Ben Sampson



Bioblitz a gynhaliwyd yn Nhwyni Crymlyn CYDNABYDDIAETH Twyni ar Symud/Hannah Lee

Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023



Creu'r cerflun bwâu CYDNABYDDIAETH James Eifion Thomas.

Cyswllt:

Hannah Lee, Swyddog Ymgysylltu Cymru, Twyni ar Symud
Hannah.Lee@plantlife.org.uk

Am ragor o wybodaeth am Brifysgol Abertawe, cysylltwch â Ffion White, Swyddfa'r Wasg Prifysgol Abertawe. Ffoniwch 01792 602706, neu ebostiwch: f.e.white@swansea.ac.uk

Nodiadau i olygyddion

[1] Erthygl 17 Adroddiad Cyfarwyddeb Cynefinoedd 2019

Cewch fwy o wybodaeth am Twyni ar Symud ar wefan y project:
<https://dynamicdunescapes.co.uk> ac am weithrediadau'r project yn ne Cymru:
<https://dynamicdunescapes.co.uk/project/swansea-neath-port-talbot/>

Mwy am Twyni ar Symud

Project partneriaeth yw [Twyni ar Symud](#) sy'n adfer twyni tywod ledled Cymru a Lloegr er budd bywyd gwyllt, pobl a chymunedau, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE. Partneriaid y project yw Natural England, Plantlife, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Cernyw, Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Swydd Lincoln ac Ymddiriedolaeth Fywyd Gwyllt Cumbria.

Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023

Mae twyni tywod arfordirol Cymru a Lloegr yn gynefinoedd sy'n rhyngwladol bwysig am eu bywyd gwyllt, ac wedi eu rhestru fel un o'r amgylcheddau sydd o dan y bygythiad mwyaf yn Ewrop o ran colledion mewn bioamrywiaeth.

Mae'r twyni yma'n lloches i rywogaethau prin fel tegeirian y fign galchog, llyffant y twyni a madfall y tywod. Ond, mae'r dull o reoli'r twyni wrth eu sefydlogi dros ddegawdau lawer wedi golygu eu bod bellach wedi eu gorchuddio â llystyfiant. Bellach, rydym yn sylweddoli bod hyn yn gosod bywyd gwyllt gwarchoddedig mewn perygl. Mae angen i dwyni tywod iach fod yn rhydd i symud a bod yn ddeinamig. Mae angen arwynebedd o dywod agored ar lawer o rywogaethau i ffynnu, felly bydd y project hwn yn dod â bywyd yn ôl i'r twyni drwy greu lleiniau o dywod agored. Mae angen i ni wella'r llaciau tywod ar gyfer creaduriaid arbenigol eraill, gan fod y pantiau yma y tu ôl i'r twyni sy'n aml yn llawn dŵr yn gynefinoedd pwysig i amffibiaid ac adar. Byddwn hefyd yn clirio rhywogaethau ymledol o'r twyni a glaswellt y twyni er mwyn gwella amodau fel bod planhigion brodorol prin yn ffynnu. Byddwn yn cydweithio gydag arbenigwyr medrus lleol a chenedlaethol, grwpiau ysgolion a grwpiau lleol, gwirfoddolwyr, ac ymwelwyr o bob oedran a gallu i'n helpu i adfywio'r twyni.

Dilynwch @dynamicdunes ar Twitter, Facebook ac Instagram.

Mwy am [Plantlife](#)

Plantlife yw'r llais byd-eang dros blanhigion gwyllt a ffwng, gyda 17,000 o aelodau a chefnogwyr a 23 gwarchodfa natur sydd ag arwynebedd o bron i 4,500 erw ledled Lloegr, Yr Alban a Chymru. Mae Plantlife yn gwella, adfer, gwarchod a dathlu ein treftadaeth naturiol drwy gydweithio gyda thirfeddianwyr, cyrff cadwraeth eraill, cyrff cyhoeddus a phreifat a'r cyhoedd er mwyn sicrhau byd sy'n llawn o blanhigion gwyllt a ffwng. Yn elusen gofrestredig, ariennir Plantlife gan gyfraniadau unigol, drwy grantiau ac ymddiriedolaethau elusennol a thrwy ei gyngor a phrojectau rheolaeth tir arloesol.

Am Brifysgol Abertawe

Wedi ei sefydlu yn 1920, mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol dau gampws a arweinir gan ymchwil a saif ar Fae Abertawe yn ne Cymru. O ganlyniad i'w leoliadau arfordirol hardd a chroeso cynnes mae dros 22,000 o fyfyrwyr o bob cwr o'r byd yn dewis dod i Brifysgol Abertawe. Mae yma dri chyfadran academiaidd, sy'n cyflwyno oddeutu 450 o raglenni israddedig a 350 o raglenni ôl-raddedig.

Mae Abertawe ymysg y 30 sefydliad uchaf yn y DU, ac mae wedi ei raddio'n rhif 26 yn Arweiniad Prifysgolion y Guardian. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, dosbarthwyd 86% o effaith ymchwil Prifysgol Abertawe drwyddo draw a 91% o'i amgylchedd ymchwil fel arweinwyr byd-eang ac ardderchog yn rhyngwladol, gyda 86% o'i effaith ymchwil yn cael ei raddio'n rhagorol a hynod sylweddol.

Mae [Prifysgol Abertawe](#) yn elusen gofrestredig, rhif 1138342.

Mwy am SEWBRc

Canolfan [South East Wales Biodiversity Records Centre \(SEWBRc\)](#) yw'r Ganolfan Gofnodion Amgylcheddol Lleol dros swydd Gwent a Morgannwg. Ein nod yw sicrhau bod

Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023

gwybodaeth bioamrywiaeth lleol ar gael i'r sawl sydd ei angen, i helpu i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth lleol yn cael eu gwneud yng ngoleuni'r wybodaeth orau sydd ar gael.

Rydym yn sicrhau'r nod hwn drwy:

- Gefnogi'r gymuned gofnodi biolegol lleol a'u helpu i reoli a pharatoi'r wybodaeth werthfawr a gesglir ganddyn nhw;
- Gydweithio gydag ystod eang o gyrff i gasglu ynghyd yr wybodaeth sydd ganddyn nhw a'i osod ar gyfrifiadur;
- Casglu a rheoli'r setiau amrywiol yma o ddata mewn lleoliad canolog; a
- Darparu ystod o gynnyrch a gwasanaethau bioamrywiaeth mentrus a phriodol i ateb anghenion ein defnyddwyr.

Mae SEWBreC yn weithredol ar ran is-siroedd Gwent (VC35, sef Sir Fynwy) a Morgannwg (VC41). Ein Hawdurdodau Unedig yw: Blaenau-Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tydfil, Sir Fynwy, Nedd Port Talbot, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Torfaen a Bro Morgannwg*.

[Cliciwch yma](#) am gysylltau â llwyfannau cymdeithasol SEWBreC.

Mwy am Buglife

Buglife yw'r unig gorff yn Ewrop sydd wedi ymrwymo i gadwraeth pob infertebrat. Rydym yn gweithio'n ymarferol i achub ein hanifeiliaid bychan mwyaf prin, pob dim o wenynd i chwilog, pryfed genwair i bryfed lludw a phryfed cop neidiol i slefrod môr. Mae gan Buglife gyfoeth o waith cadwraeth ymarferol yn bennaf o fewn y DU. Gyda chymaint o rywogaethau i ddewis ohonyn nhw mae Buglife wedi gorfod blaenoriaethu meysydd gwaith sy'n golygu bod y canolbwynt presennol ar beillwyr a chynefinoedd dŵr croyw. Fodd bynnag, fel unig warchodwr cymaint o infertebratau mae angen gweithredu i achub rhywogaethau mewn perygl o ddifodiant yn y DU a safleoedd o bwysigrwydd mawr sydd o dan fygythiad. Mae llawer o'r gwaith hwn ar ffurf arwain drwy esiampl gan ddatblygu'r rhyngweithio gorau posibl i feithrin rhywogaethau ac yna rhannu gydag eraill i sicrhau'r effaith fwyaf dros infertebratau.

Mae llawer o'r projectau ymarfer gorau yma bellach wedi eu mabwysiadu gan lywodraethau cenedlaethol a lleol ac felly'n cynyddu mewn statws ac effaith. Er enghraifft, mae'r project cysylltedd peillwyr B-Lines arloesol wedi ei ariannu gan bob llywodraeth y DU ac yn cael ei ystyried fel hanfodol i strategaethau peillwyr.

Mwy am Gadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgwyr

Elusen fywyd gwyllt genedlaethol yw Ymddiriedolaeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) sydd wedi ymrwymo i warchod amffibiaid ac ymlusgiaid y DU, ac achub y cynefinoedd y maen



Datganiad i'r Wasg: 13/07/2023

nhw'n dibynnu arnyn nhw sy'n diflannu. Yn ne Cymru, rydym ar hyn o bryd yn cyflwyno project pedair-mlynedd, ar raddfa fawr, o'r enw Cysylltu'r Dreigiau.

Wedi ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol, nod y project yw adfer a chodi ymwybyddiaeth o boblogaethau o amffibiaid ac ymlusgiaid sy'n prnhau ac yn cael eu darnio. Mae gennym amcanion eang, o reolaeth cynefin ymarferol a chreu ac adfer cynefinoedd, i hyfforddi gwirfoddolwyr a'r cyhoedd, a helpu i hybu dealltwriaeth y cyhoedd o'n rhywogaethau targed sef llyffantod a brogaod, madfallod, a nadroedd.

Mwy am [Twyni Byw](#)

Project cadwraeth pwysig sy'n weithgar hyd mis Mehefin 2024 yw Twyni Byw i adfer twyni tywod ledled Cymru. Mae'n ail-greu symudiad naturiol yn y twyni ac yn adfywio cynefinoedd sy'n gartref i rywfaint o'n bywyd gwyllt mwyaf prin.

Mae'r project pwysig hwn, a arweinir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn adfer dros 2400 hectar o dwyni tywod, ledled pedair Ardal Gadwraeth Arbennig, ar 10 safle Cymreig unigol.